

Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.

Polisi'r Iaith Gymraeg

Cwmpas a Phwrrpas y Polisi

Ategir y polisi hwn gan weledigaeth y Coleg - Ysbrydoledig, Cynhwysol a Dylanwadol, a bydd yn cefnogi'r Coleg i weithio tuag at ein prif yrwyr Ansawdd, Effeithlonrwydd a Thwff.

Mae Coleg Caerdydd a'r Fro yn falch o fod yn Gymraeg. Fel y coleg mwyaf yng Nghymru rydym yn angerddol am ein gwlad, ein hiaith, a chyfleoedd cynyddol i bawb siarad, dysgu a byw yn Gymraeg.

Rydym yn cynnal ymagwedd gadarnhaol a chadarn at fodloni Safonau'r Gymraeg (SC) y mae dyletswydd arnom i gydymffurfio â hwy, ac i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae CAVC yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ac yn cyfathrebu'n ddwyieithog â staff a'r cyhoedd. Rydym wedi ymrwmo i sicrhau bod pob dysgwr, aelod o staff ac aelod o'r cyhoedd yn cael mynediad at wasanaethau yn y Gymraeg ac i annog defnydd o'r gwasanaethau hynny.

Nod y polisi hwn yw rhoi arweiniad ar sut rydym yn gweithredu, sicrhau bod ein staff, myfyrwyr a'r cyhoedd yn gallu defnyddio'r iaith o'u dewis, a hefyd hyrwyddo'r iaith yn fewnol ac allanol, ac annog a chynnig cyfleoedd i staff CAVC ddysgu a gwella eu sgiliau Cymraeg.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob aelod o staff ac yn ymwneud â gwaith y coleg yng Nghymru, ac eithrio'r gwaith a wneir gan adrannau ESOL a Chyrhaeddiad CAVC a phrosiectau rhyngwladol y coleg. Mae'r polisi'n cwmpasu rhanddeiliaid CAVC o ran myfyrwyr, staff ac aelodau'r cyhoedd.

Ceir rhagor o wybodaeth am y Safonau Iaith Gymraeg y mae angen i'r coleg gydymffurfio a nhw [yma](#).

Dylid gwneud pob ymholiad sy'n ymwneud â'r polisi hwn drwy e-bost at cymraeg@cavc.ac.uk

Rhif Adolygiad:	Gwreiddiol
Dyddiad Adolygiad Diwethaf:	06/22
Dyddiad Adolygiad Nesaf:	06/24

Datganiadau Polisi

1. Cyd-destun

Bydd CAVC yn:

1.1 Gweithredu ar y sail y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal gyda'r un statws a dilysrwydd i'r ddwy iaith.

1.2 Annog a chefnogi myfyrwyr, staff ac eraill i ddefnyddio'r Gymraeg ar draws y Coleg.

1.3 Sicrhau bod gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg o'r un ansawdd, yr un mor weladwy â'r un mor hygyrch â'r rhai Saesneg.

1.4 Hyrwyddo unrhyw gyfleoedd sydd ar gael i staff, myfyrwyr ac aelodau'r cyhoedd ddefnyddio'r Gymraeg neu ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg.

1.5 Darparu cyfleoedd i staff y coleg ddatblygu eu sgiliau iaith yn ffurfiol ac yn anffurfiol.

1.6 Ystyried yr effaith ar y Gymraeg wrth ddatblygu a gweithredu pob polisi a strategaeth gorfforaethol.

2. Gwasanaethau yn y Gymraeg

2.1 Gohebiaeth Ysgrifenedig

2.1.1 Mae CAVC yn croesawu gohebiaeth gan staff, myfyrwyr ac aelodau'r cyhoedd yn Gymraeg neu Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg. Bydd pob gohebiaeth, boed yn Gymraeg neu Saesneg, yn cael ei hateb o fewn yr un amserlen.

2.1.2 Mae CAVC yn cadw cofnod o ddewis iaith myfyrwyr cofrestredig ar ddechrau pob blwyddyn academaidd. Bydd y rhai sydd wedi mynegi dewis yn derbyn pob gohebiaeth yn y dyfodol yn Gymraeg.

2.1.3 Bydd e-byst, llythyrau a chylchlythyrau safonol/cyffredinol yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog.

2.2 Gwasanaethau Ffôn

2.2.1 Bydd pob galwad sy'n dod i mewn yn cael ei hateb gyda chyfarchiad dwyieithog. Bydd unrhyw alwadau sy'n dod i mewn sy'n dewis yr opsiwn llinell Gymraeg yn cael eu cyfeirio'n awtomatig at aelod o staff sy'n siarad Cymraeg.

2.2.2 Bydd negeseuon peiriant ateb yn cynnwys neges ddwyieithog fer ac mae croeso i alwyr adael neges yn Gymraeg neu Saesneg. Bydd yr ymateb i neges y galwr yn eu dewis iaith.

Rhif Adolygiad:	Gwreiddiol
Dyddiad Adolygiad Diwethaf:	06/22
Dyddiad Adolygiad Nesaf:	06/24

2.3 Cyfathrebiadau Electronig

2.3.1 Mae croeso i unrhyw un sy'n dymuno cyfathrebu â CAVC drwy e-bost ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg, a bydd y Coleg yn ymateb yn iaith y neges gychwynnol gan sicrhau nad oes oedi wrth ymateb.

2.3.2 Rhaid i lofnodion e-bost staff fod yn ddwyieithog ac anogir aelodau staff sy'n siarad Cymraeg i arddangos y logo "Cymraeg" er mwyn adnabod eu hunain fel siaradwyr Cymraeg.

2.3.3 Disgwylir i staff ddefnyddio'r canllawiau ar 'Llofnodion E-bost Dwyieithog' ac 'Atebion Allan o'r Swyddfa' sydd ar gael ar y Porth Staff.

2.4 Cyfarfodydd, Digwyddiadau Cyhoeddus a Graddio

2.4.1 Bydd CAVC yn sicrhau bod unrhyw ddysgwyr, aelodau o'r cyhoedd neu gynrychiolwyr sefydliadau allanol yng Nghymru a wahoddir i gyfarfodydd yn cael cynnig y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfodydd hyn. Os nad yw'n bosibl neu'n ymarferol cynnal y cyfarfod yn Gymraeg, bydd y Coleg yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd os bydd angen.

2.4.2 Bydd pob cyfarfod cyhoeddus yn cael ei hysbysebu'n ddwyieithog, a bydd yr holl ddeunyddiau'n cael eu harddangos yn ddwyieithog.

2.4.3 Wrth drefnu a hysbysebu digwyddiad cyhoeddus, bydd CAVC yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, gan sicrhau bod y ddwy iaith yr un mor weladwy.

2.4.4 Bydd yr holl arwyddion a deunyddiau a gynhyrchir ar gyfer seremonïau graddio a drefnir gan CAVC yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, a bydd unrhyw un a wahoddir i siarad yn cael y cyfle i wneud hynny yn Gymraeg.

2.5 Hunaniaeth Gorfforaethol, Dogfennau, Cyhoeddiadau a Ffurflenni

2.5.1 Mae hunaniaeth gorfforaethol CAVC yn ddwyieithog.

2.5.2 Mae logo'r Coleg a thempledi'r Coleg ar gael yn ddwyieithog ac yn sicrhau bod y ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal.

2.5.3 Mae CAVC yn cyhoeddi'r holl ddogfennau a ffurflenni corfforaethol yn ddwyieithog ac yn sicrhau bod fformat, ansawdd, maint ac amlygrwydd y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

2.5.4 Lle bo angen fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân o ddogfen neu ffurflen, caiff y ddau fersiwn eu cyhoeddi a'u dosbarthu ar yr un pryd. Bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r un safon ac yn cael eu harddangos gyda'i gilydd. Yn yr achosion hyn, bydd y fersiwn Saesneg yn cynnwys datganiad yn egluro bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg.

2.5.5 Rhoddir arweiniad i staff y coleg a rhanddeiliaid allanol ar sut i ymdrin â chyhoeddiadau dwyieithog a fersiynau Cymraeg/Saesneg ar wahân o gyhoeddiadau.

Rhif Adolygiad:	Gwreiddiol
Dyddiad Adolygiad Diwethaf:	06/22
Dyddiad Adolygiad Nesaf:	06/24

2.6 Gwefan, Cyfryngau Cymdeithasol a Rhaglenni Meddalwedd

2.6.1 Mae gwefan CAVC yn gweithredu'n llawn yn y Gymraeg a'r Saesneg.

2.6.2 Mae Cysill 3.0 a Cysgeir ar gael ar holl gyfrifiaduron a gliniaduron CAVC er mwyn gallu gwirio sillafu, gramadeg a geirfa Cymraeg.

2.6.3 Mae cyfrifon cyfryngau cymdeithasol swyddogol CAVC yn cyhoeddi cynnwys yn ddwyieithog. Os derbynnir negeseuon neu sylwadau yn Gymraeg, rhaid eu hateb yn Gymraeg heb oedi.

2.7 Arwyddion, Hysbysiadau a Gwasanaethau Derbynfaf

2.7.1 Mae unrhyw arwyddion newydd neu arwyddion a adnewyddir, gan gynnwys arwyddion dros dro, sy'n eiddo i CAVC ac sy'n cael eu codi ganddo sy'n cyfleu gwybodaeth gyhoeddus i'w cynhyrchu'n ddwyieithog gyda'r testun Cymraeg yn ymddangos gyntaf.

2.7.2 Mae ymwelwyr â phrif dderbynfaf CAVC ar Gampws Canol y Ddinas yn gallu cael mynediad at wasanaeth cwbl ddwyieithog. Mae arwydd sy'n datgan yn Gymraeg fod croeso i ymwelwyr ddefnyddio'r Gymraeg i'w weld yn y dderbynfaf. Mae'n ofynnol i staff sy'n gweithio wrth ddesg y dderbynfaf sy'n gallu darparu gwasanaeth Cymraeg wisgo laniard Cymraeg.

2.8 Ceisiadau Tendre a Grantiau

2.8.1 Mae CAVC yn croesawu unrhyw geisiadau grant yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn trin pob cais yn gyfartal. Bydd unrhyw un sy'n gwneud cais yn Gymraeg ac sydd angen ei gyfweld fel rhan o'r broses yn gallu defnyddio'r Gymraeg naill ai'n uniongyrchol neu drwy gyfieithu ar y pryd.

2.8.2 Bydd CAVC yn cyhoeddi gwahoddiadau i dendro am gontract yn ddwyieithog ac yn datgan yn glir y gellir cyflwyno tendrau yn Gymraeg. Ni fydd unrhyw dendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol nag un yn Saesneg, a chynigir y cyfle i dendrwy'r gael cyfweiliad yn Gymraeg os oes angen.

3. Myfyrwyr CAVC a'r Iaith Gymraeg

3.1 Bydd myfyrwyr CAVC sydd wedi nodi eu bod yn siarad Cymraeg neu yr hoffent gael gohebiaeth yn Gymraeg yn derbyn gohebiaeth ar ddechrau pob blwyddyn academaidd gyda gwybodaeth am y cymorth Cymraeg sydd ar gael iddynt a'u hawliau Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys:

- Cyflwyno gwaith ysgrifenedig fel rhan o asesiad neu arholiad

4. Lluio Polisiâu

4.1 Wrth lunio polisiâu newydd neu adolygu rhai presennol, bydd CAVC yn asesu effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg. Mae rhan o'r broses hon yn cynnwys gofyn a fydd yn effeithio'n negyddol neu'n gadarnhaol ar y Gymraeg a siaradwyr Cymraeg ar draws y coleg.

Rhif Adolygiad:	Gwreiddiol
Dyddiad Adolygiad Diwethaf:	06/22
Dyddiad Adolygiad Nesaf:	06/24

4.2 Mae hefyd yn ofynnol cynnal asesiadau effaith ar y Gymraeg pan fydd CAVC yn comisiynu ymchwil, yn cynnal ymgynghoriadau ac yn datblygu neu'n adolygu cwrs.

5. Staff CAVC a'r Iaith Gymraeg

5.1 Gofynnir i bob unigolyn y cynigir swydd iddo yn CAVC a yw'n dymuno derbyn ei gontract cyflogaeth, unrhyw ohebiaeth bapur sy'n ymwneud â'i gyflogaeth, unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu eu hanghenion neu ofynion hyfforddi, amcanion perfformiad neu unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu eu cynllun gyrfa yn Gymraeg.

5.2 Bydd staff CAVC yn cael cynnig y cyfle i dderbyn unrhyw ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi gwyliau blynyddol, absenoldebau o'r gwaith, ac oriau gwaith hyblyg yn Gymraeg.

5.3 Mae'r holl bolisiau mewnol i'w cynhyrchu a'u cyhoeddi'n ddwyieithog ar y Porth Staff.

5.4 Bydd staff CAVC yn cael cynnig y cyfle i wneud cwynion ac ymateb i honiadau a wneir yn eu herbyn mewn unrhyw broses ddisgyblu fewnol yn Gymraeg ac i ddefnyddio'r Gymraeg mewn unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r gŵyn neu'r mater disgyblu hwnnw.

5.5 Mae Porth Staff CAVC yn gweithredu'n ddwyieithog gyda rhyngwyneb, bwydlenni a thestun pob tudalen ar gael yn Gymraeg, ac mae ganddo ardal benodedig o'r enw Cymraeg sy'n darparu gwasanaethau a deunyddiau cymorth sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

5.6 Bydd CAVC yn cynnal Archwiliad Sgiliau Cymraeg blynyddol i asesu sgiliau ieithyddol aelodau staff.

5.7 Bydd gan staff CAVC yr hawl i gael mynediad at hyfforddiant sy'n ymwneud â recriwtio a chyfweld; rheoli Perfformiad; gweithdrefnau cwyno a disgyblu; sefydlu; delio â'r cyhoedd; ac iechyd a diogelwch yn Gymraeg os caiff ei gynnig yn Saesneg.

5.8 Mae staff CAVC yn gallu cael hyfforddiant yn y Gymraeg ar ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn cyfarfodydd; cyfweiliadau a gweithdrefnau cwyno a disgyblu.

6. Gweithrediadau Mewnol

6.1 Cyfieithu

6.1.1 Mae gwasanaeth cyfieithu allanol ar gael i bob aelod o staff ac fe'u cynghorir ar sut i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn yn briodol.

6.1.2 Mae canllawiau ac adnoddau ar gael ar y Porth Staff i gefnogi staff i greu llofnodion e-bost dwyieithog a gosod atebion awtomatig dwyieithog.

6.1.3 Mae laniard Cymraeg ar gael i bob aelod sy'n siarad Cymraeg ac anogir hwy i'w gwisgo i ddangos eu bod yn gallu defnyddio'r Gymraeg.

Rhif Adolygiad:	Gwreiddiol
Dyddiad Adolygiad Diwethaf:	06/22
Dyddiad Adolygiad Nesaf:	06/24

6.2 Recriwtio

6.2.1 Bydd pob swydd a hysbysebhir gan CAVC yn rhestru'r gallu i siarad Cymraeg naill ai fel sgil dymunol neu hanfodol. Mae CAVC yn cynnal asesiad ar gyfer pob swydd i bennu lefel y Gymraeg sydd ei hangen ar gyfer pob swydd.

6.2.2 Rhoddir gwybod i ymgeiswyr eu bod yn cael y cyfle i gyflwyno eu cais yn Gymraeg a bydd pob ffurflen gais, deunydd sy'n egluro'r drefn ar gyfer gwneud cais am swyddi, gwybodaeth yn ymwneud â'r broses gyfweld a disgrifiadau swydd yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg.

6.2.3 Ni fydd unrhyw un sy'n gwneud cais am rôl yn CAVC yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na rhywun sy'n gwneud cais yn Saesneg a bydd unrhyw un sy'n gwneud cais yn Gymraeg yn cael gwybod am ein penderfyniad mewn perthynas â'r swydd yn Gymraeg.

7. Cofnodi Cwynion a Chadw Cofnodion

7.1 Cofnodi Cwynion

7.1.1 Bydd unrhyw gwynion a wneir ynghylch y Gymraeg neu gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg yn cael eu cofnodi a byddant yn dilyn trefn gwyno ffurfiol CAVC.

7.2 Cadw Cofnodion

7.2.1 Bydd CAVC yn cadw copi neu gofnod o'r canlynol:

- Nifer y gweithwyr sydd â sgiliau Iaith Gymraeg a lefel eu sgiliau.
- Nifer y gweithwyr sydd wedi mynychu cyrsiau hyfforddi a ddarperir yn Gymraeg, a lle darperir cwrs Cymraeg, y ganran o gyfanswm y staff sy'n mynychu.
- Pob asesiad a wneir yn ymwneud â gofynion swydd newydd neu wag a chofnod o nifer y swyddi a'r swyddi gweigion sy'n rhestru sgiliau Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol.

8. Monitro a Goruchwyllo

8.1 Mae'r Coleg yn gweithredu Grŵp Strategol Iaith Gymraeg, sy'n cynnwys cynrychiolaeth o feysydd y Cwricwlwm a Chymorth Busnes o bob rhan o'r Coleg. Mae Grŵp Strategol y Gymraeg yn cael ei gadeirio gan Is-Bennaeth y Coleg ac yn cyfarfod unwaith y tymor. Mae'r Grŵp hwn yn monitro perfformiad y Coleg yn erbyn Safonau'r Gymraeg. Mae aelodau Grŵp Strategol y Gymraeg yn cymryd cyfrifoldeb am ledaenu mentrau ac arweiniad ar draws pob maes.

8.2 Bydd cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg yn cael ei fonitro'n fisol, yn dymhorol ac yn flynyddol gan Swyddog yr Iaith Gymraeg, gan sicrhau bod tystiolaeth ar gael ar gais Comisiynydd y Gymraeg.

8.3 Mae fîm yr Iaith Gymraeg yn cynhyrchu Adroddiad Blynnyddol ar weithgarwch a pherfformiad y Coleg mewn perthynas â'r Hysbysiad Cydymffurfio. Cyhoeddir yr Adroddiad Blynnyddol ar wefan CAVC. Mae pob aelod o staff yn cael gwybod am ei gyhoeddiad trwy Limelight (cylchlythyr staff).

8.4 Mae'n ofynnol i Reolwyr Addysgu a Dysgu a Chymorth Busnes gymryd cyfrifoldeb am fod yn ymwybodol o'r Safonau a'u gweithredu yn eu meysydd.

Rhif Adolygiad:	Gwreiddiol
Dyddiad Adolygiad Diwethaf:	06/22
Dyddiad Adolygiad Nesaf:	06/24

Cyfrifoldebau

Bydd y Corff Llywodraethol yn gyfrifol am sicrhau:

- Adolygir y Polisi yn rheolaidd (yn unol â thelerau adolygu'r polisi) a rhoddir cyngor priodol ar y cynnwys. Mae'r Prif Fwrdd yn cymeradwyo'r polisi.

Bydd y Pennaeth yn gyfrifol am sicrhau:

- Cydymffurfir â Safonau Iaith Gymraeg y Coleg ac eu bod yn cael eu gweithredu'n llawn a'u dilyn gan staff.
- Adnoddau digonol yn cael eu dyrannu i Safonau'r Gymraeg.

Bydd yr Uwch Grŵp Cynllunio yn gyfrifol am:

- Adolygu'r Polisi hwn a'r gweithdrefnau sydd ynghlwm.
- Monitro gweithrediad y gweithdrefnau, cefnogi staff i gadw at y polisi ac ymateb yn effeithiol i unrhyw feysydd sy'n peri pryder.
- Sicrhau bod gweithdrefnau ac arferion perthnasol y coleg yn cynnwys yr Iaith Gymraeg.

Mae Pennaeth Cynorthwyol Ansawdd, Addysgu a Dysgu yn gyfrifol am:

- Darparu hyfforddiant a datblygiad priodol.
- Sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd i fonitro data sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn a bod y data hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio a gwella arfer.

Disgwylir i holl Reolwyr y Coleg feddu ar:

- Dealltwriaeth dda o ofynion Safonau'r Gymraeg a byddant yn chwarae rhan ymarferol wrth hyrwyddo ymrwymadau'r polisi hwn o fewn eu meysydd gwaith.

Mae pob aelod o staff yn gyfrifol am:

- Sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg a bod unigolion sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn cael y cyfle i wneud hynny.
- Bod yn ymwybodol o Safonau'r Gymraeg a'r gweithdrefnau a gweithio mewn modd nad yw'n mynd yn groes i'w cynnwys.
- Gweithio o fewn gofynion Diogelu Data a GDPR.
- Mynychu digwyddiadau DPP ar agweddau sy'n berthnasol i lwyddiant y polisi hwn a gweithdrefnau cysylltiedig.

Deddfwriaeth ac Arweiniad

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Inspirational. Inclusive. Influential.
Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.
www.cardiffandvalecollege.ac.uk

Rhif Adolygiad:	Gwreiddiol
Dyddiad Adolygiad Diwethaf:	06/22
Dyddiad Adolygiad Nesaf:	06/24

Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Yn unol â gweithdrefnau'r Coleg, ysgrifennwyd y Polisi hwn gan ystyried effaith unigolion yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb.

Goblygiadau Iechyd a Diogelwch

Dim

Safonau'r Iaith Gymraeg

Mae'r polisi hwn yn rhoi cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg. Mae'r dyletswyddau sy'n dod o'r Safonau yn golygu na ddylai sefydliadau drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ynghyd â hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg hy ei gwneud yn haws i bobl ei defnyddio yn eu bywyd o ddydd i ddydd.

Cyfeirnodau

Polisiau Cysylltiedig

Mae hyn yn gysylltiedig â phob polisi

Gweithdrefnau Cysylltiedig

Mae hyn yn gysylltiedig â'r holl weithdrefnau

Cyfathrebu a Storio

Cyhoeddir y polisi hwn ar wefan y cwmni.
Cedwir y polisi hwn ar fewnwyd y cwmni.
Rhennir y polisi hwn gyda dysgwyr.

Geirfa

Dim

Cymeradwyo, Newid ac Adolygu

Adolygir y polisi hwn bob 2 flynedd.

Rhif Adolygiad:	Gwreiddiol
Dyddiad Adolygiad Diwethaf:	06/22
Dyddiad Adolygiad Nesaf:	06/24

Dyddiad cymeradwyo: 30^{ain} o Fehefin 2022

**Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Ansawdd a Materion
Myfyrwyr**

Dyddiad Adolygu: 30^{ain} o Fehefin 2024

Rheolwr Cyfrifol: Cyfarwyddwr Marchnata a Chyfathrebu

Arweinydd Gweithredol: Pennaeth

Hygyrch i Fyfyrwyr: Ydy

Rhif Adolygiad:	Gwreiddiol
Dyddiad Adolygiad Diwethaf:	06/22
Dyddiad Adolygiad Nesaf:	06/24